# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HAF 2017**

**TGAU (NEWYDD)**
**CYMRAEG IAITH - UNED 2**
**3000N20-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2017. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYNLLUNIAU MARCIO TGAU**

**CYMRAEG IAITH – UNED 2**

**HAF 2017**

**ADRAN A (Darllen): 25 marc**
**Darn Darllen 1**
**Siart siaradwyr Cymraeg**

A.1 Yn 1911 roedd tua 200,000 o bobl yn siarad: [1]

Cymraeg yn unig ☑

(Casglu Gwybodaeth)

**Darn Darllen 2**
**Wyth rheswm da dros gyflwyno'r Gymraeg o'r crud**

A.2 Nodwch ✓ yng ngholofn dde y tabl gyferbyn â'r ddau sylw sy'n gywir. [2]

1 marc yr un.

| | ✓ |
|---|---|
| Mae bod yn ddwyieithog yn helpu gyda sgiliau rhif a darllen. | ✓ |
| Mae'n anodd i blentyn dwyieithog brofi pethau newydd ac mae'n anodd iddyn nhw wneud llawer o ffrindiau. | |
| Mae'n haws i blentyn dwyieithog ddysgu iaith ychwanegol. | ✓ |
| Dydy'r gallu i siarad Cymraeg a Saesneg ddim yn beth da pan rydych ceisio am swydd. | |

(Dehongli gwybodaeth)

**Darn Darllen 3**
**Defnyddia dy ddwy iaith**

A.3 Ticiwch un blwch i ddangos beth yw pwrpas y poster. [1]

1 marc am nodi:

Perswadio pobl i siarad y ddwy iaith sydd ganddyn nhw ☑

A.4 Esboniwch sut mae'r poster yn llwyddo i berswadio gan gyfeirio at y darn darllen i gefnogi eich sylwadau. Rhwng 0 a 2 farc am resymu: [2]

**0 marc**
Dim rheswm/rheswm ddim yn argyhoeddi o gwbl

**1 marc**
Nodi rheswm/rhesymau sy'n argyhoeddi
Enwi a dyfynnu (dim trafodaeth ar effaith)
Ailadrodd cynnwys yn unig



© WJEC CBAC Cyf.

**2 farc**
Nodi rhesymau a chyfeirio'n fanwl at y darn darllen
Trafodaeth llawnach – enwi neu leoli, dyfynnu, trafod effaith

Gall yr ymgeiswyr sôn am bwyntiau megis:

- berf (orchmynnol) / gorchymyn 'defnyddia'/annog pobl sydd yn siarad dwy iaith i'w defnyddio
- rhoi rhesymau amrywiol i ddangos bod hyn yn beth da/rhestru
- defnyddio ffontiau gwahanol sydd yn apelio
- cryno/uniongyrchol/dim llawer o ysgrifen
- defnyddio geiriau cadarnhaol e.e. agor y drws/ennill/uwch/datblygu/ llwyddo/gwell/gwych/haws/hunan-hyder
- siarad yn uniongyrchol â darllenwyr sydd yn siarad dwy iaith er mwyn apelio atynt e.e. defnyddia/dy

✓ - am bopeth i'w ganmol
✓✓ - am rywbeth arbennig o dda
Mewnbynnu marc
(Deall diben a phwrpas/rhesymu)

**Darn Darllen 4**
**Y Gymraeg yn Agor Drysau**

A.5 Ble cafodd Darren Morris ei fagu? Rhowch ✓ yn y blwch cywir. [1]

Shotton ☑
(Casglu gwybodaeth)

A.6 Tanlinellwch yr idiom/ymadrodd yn y dyfyniad canlynol sy'n dangos bod Darren Morris yn hapus iawn yn ei swydd. [1]

| |
|---|
| Mi wnes i weithio yng Nglan-llyn yn arwain plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau amrywiol yn yr awyr agored cyn dod yn Swyddog Datblygu. Rydw i **wrth fy modd** gyda'r teithiau, yr adrannau, y gweithgareddau a'r hwyl – i gyd trwy gyfrwng y Gymraeg. |

Derbyn 'Rydw i wrth fy modd'
Gellir derbyn cylchu/uwcholeuo ateb.

Mewnbynnu marc yn unig.
(Dehongli ystyr)


© WJEC CBAC Cyf.

A.7 Ydy bod yn ddwyieithog wedi bod yn beth da i Darren Morris? Rhowch resymau gan gyfeirio at y darn darllen wrth ateb. **[3]**

Gwobrwyir rhwng 0 a 3 marc fel a ganlyn:

**0 marc**
Dim ateb/ddim yn argyhoeddi

**1 marc**
Ateb yn fras/ambell reswm

**2 farc**
Rhesymu a chyfeirio at y darn

**3 marc**
Dehongli'r darn yn aeddfed a chyfeirio'n gyson at y darn darllen

Gall yr ymgeiswyr sôn am bwyntiau megis:

- ei fam yn dweud mai dyna'r peth gorau wnaeth hi erioed
- cyfleoedd/swyddi yn anhygoel
- teulu'n genfigennus o'r profiadau y mae'n eu cael oherwydd y Gymraeg (ni ellir derbyn cenfigen teulu o Darren)
- Glan-llyn/Swyddog Datblygu
- gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg
- gallu addasu yn ôl y gynulleidfa
- sgiliau hanfodol ar gyfer byd gwaith
- mantais i gyflogwr
- cael cynnig yr un cyfle i'w blant
- cael pleser o siarad Cymraeg â'r plant
- teulu'n falch ohono'n siarad Cymraeg â'r plant
- dwy iaith yn well nag un
- ddim yn cael y profiadau heb siarad dwy iaith
- wrth ei fodd gyda'i swydd
- gallu cynnig cyfleoedd i eraill

(Casglu a dehongli gwybodaeth)

✓ - am bopeth i'w ganmol
✓✓ - am rywbeth arbennig o dda
Mewnbynnu marc



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 5**
BBC – Manteision Dwyieithrwydd

A.8 Nodwch ✓ yng ngholofn dde y tabl gyferbyn â'r sylwadau sy'n gywir. **[2]**
1 marc yr un

| | ✓ |
|---|---|
| Mae siarad dwy iaith yn gwneud pobl yn fwy goddefgar o arferion pobl eraill. | ✓ |
| Mae pobl sy'n siarad un iaith yn perfformio'n well mewn profion na phobl ddwyieithog. | |
| Mae'r ffordd mae geiriau'n swnio'n bwysicach na'u hystyr i bobl sy'n siarad dwy iaith. | |
| Mae'r gallu i droi o un iaith i'r llall yn gallu gwneud i blentyn deimlo'n well amdano'i hun. | ✓ |

(Dehongli gwybodaeth)

**Darnau Darllen 3, 4 a 5**
**Defnyddia dy ddwy iaith, Y Gymraeg yn Agor Drysau, BBC – Manteision Dwyieithrwydd**

A.9 Rydych chi'n gwneud cais am swydd rywle yng Nghymru. Llenwch y rhan hon o'r ffurflen gais **gan ddefnyddio gwybodaeth o'r tri darn darllen yn unig.** **[5]**

Gwobrwyir rhwng 0 a 5 marc fel a ganlyn:
**0 marc**
Dim ateb/gwybodaeth amherthnasol

**1 marc**
Ateb byr iawn/ychydig iawn o wybodaeth (1/2 o bwyntiau)

**2 farc**
Cyflwyno sawl pwynt o wybodaeth (3/4 o bwyntiau)

**3 marc**
Gwybodaeth fanwl o'r darnau darllen (5 o bwyntiau neu fwy)

**4 marc**
Gwybodaeth fanwl a dechrau dehongli

**5 marc**
Gwybodaeth fanwl a dehongli aeddfed

Rhaid defnyddio gwybodaeth o leiaf 2 ddarn.
Ni ellir dyfarnu mwy na 2 farc am dynnu gwybodaeth o un darn yn unig.
Heb ateb yn y person cyntaf – tynnu 1 marc.
Os bydd ymgeisydd wedi dechrau ateb yn y person cyntaf ond wedyn mynd yn ôl i'r trydydd person – gellir derbyn hyn.



© WJEC CBAC Cyf.

Gall yr ymgeiswyr sôn am bwyntiau megis:

- sgiliau meddwl uwch
- llwyddo'n well yn yr ysgol/gwneud yn well mewn profion/ disgyblion addysg Gymraeg yn perfformio'n well na disgyblion addysg Saesneg
- cynnig gwasanaeth cwsmer gwych
- gallu dysgu iaith arall yn haws os oes angen
- hunan-hyder/bodlonrwydd
- gallu addasu yn ôl y gynulleidfa
- sgiliau hanfodol i'r byd gwaith
- siarad, darllen ac ysgrifennu mewn dwy iaith
- sgiliau sy'n fanteisiol i gyflogwr
- derbyn gwahaniaethau rhwng pobl
- sensitif i anghenion gwrandawr
- galw am bobl ddwyieithog mewn sawl sector

Dehongli

- mwy i'w gynnig
- sgiliau soffistigedig
- perfformio'n well
- sgiliau cyfathrebu da
- person bodlon yn debygol o fod yn fodlon yn y gwaith

Gwobrwyo'r hyn sy'n berthnasol i'r dasg yn unig.

✓ - am bopeth i'w ganmol
✓✓ - am rywbeth arbennig o dda/dehongli ac aeddfedrwydd
Mewnbynnu marc

(Cyfuno a dehongli gwybodaeth)

**Darn Darllen 6**
**Su'mae, Shw mae**

A.10 Pa fath o iaith mae'r awdur yn ei defnyddio yn y darn darllen hwn? Rhowch ✓ yn y blwch cywir. [1]

Tafodiaith y gogledd ☑
(Dehongli)



© WJEC CBAC Cyf.

A11. Beth yw neges yr awdur yn y darn hwn a sut mae'r awdur yn cyfleu'r neges honno? Dylech ddefnyddio enghreifftiau o'r darn darllen wrth ateb. [6]

Gwobrwyir rhwng 0 a 6 marc fel a ganlyn:

**0 marc**
Dim ateb/ateb amherthnasol

**1 marc**
Ateb byr iawn – ymgais i gyfleu neges

**2 farc**
Nodi neges yr awdur ac ymgais i resymu

**3 marc**
Nodi neges yr awdur a dechrau dangos ymwybyddiaeth o sut mae'n cyfleu'r neges

**4 marc**
Trafod neges yr awdur a chyfeirio at y darn darllen i nodi sut mae'r neges yn cael ei chyfleu

**5 marc**
Trafod neges yr awdur yn fanwl a chyfeirio at y darn darllen yn fanwl i nodi sut mae'r neges yn cael ei chyfleu

**6 marc**
Trafod neges yr awdur yn aeddfed a chyfeirio'n dreiddgar at y darn darllen gan enghreifftio'n gyson sut mae'r neges yn cael ei chyfleu

Sut = arddull
Gall yr ymgeiswyr sôn am bwyntiau megis:

- awgrymu nad yw'r frwydr dros yr iaith mor hawdd ym mhobman – dilornus o'r bobl sy'n cael syniadau o'r fath/negyddol am ardaloedd fel Caernarfon lle mae pawb yn gwneud popeth yn Gymraeg/profiadau o gyfarch yn Gymraeg yn ystod y dydd yn anodd ac yn ddiffrwyth
- diweddglo yn dangos bod dyfalbarhad yn talu a bod siaradwyr Cymraeg yn y llefydd mwyaf annisgwyl/pobl fel y ferch hon yn falch o'r cyfle i siarad Cymraeg/dydyn ni ddim yn gwybod pwy sy'n gallu siarad Cymraeg hyd nes y gwnawn yr ymdrech/peidio ildio'n rhy hawdd
- profiadau'n awgrymu y gallai fod wedi ildio gan fod siarad Saesneg yn aml yn haws
- neges bwysig mai colli iaith/diffyg hyder oherwydd diffyg cyfle sy'n rhannol gyfrifol am y sefyllfa
- gwneud i ni feddwl am y cyfleoedd rydyn ni'n eu colli
- peidio â bod ofn siarad Cymraeg
- ymateb positif gan yr awdures yn y caffi/negyddol ar y bws
- cael hyder o siarad â phobl eraill
- hawdd i rai/anos i eraill
- dal ati i gael llwyddiant
- pobl yn anniddig at y rhai sy'n siarad Cymraeg

✓ - am bopeth i'w ganmol – neges/nodwedd/dyfyniad
✓✓ - am rywbeth arbennig o dda/dehongli ac aeddfedrwydd
Mewnbynnu marc
(Dehongli, dadansoddi a gwerthuso)



© WJEC CBAC Cyf.

A.12 **Golygu (5 marc)**

(i) Dewiswch y gair cywir i lenwi'r bwlch yn y frawddeg.

Gan fod Elin yn hoff o ganu ac actio roedd hi'n teimlo'n _______________ i gymryd rhan yn sioe gerdd yr ysgol.

awyddus ☑
Os bydd ymgeisydd wedi ysgrifennu 'awyddus' – gellir rhoi marc.
Os bydd ymgeisydd wedi dewis yr ateb cywir ond wedi camsillafu gellir rhoi marc.
Ticio mwy nag un ateb – does dim modd rhoi'r marc.
Os nad yw'r ateb yn glir nid oes modd rhoi'r marc. [1]

(ii) Mae'r frawddeg ganlynol yn rhy hir. Rhannwch y frawddeg yn dair brawddeg heb newid ystyr y darn. [3]

Camodd Idris drwy ddrws y tŷ a cherddodd tuag at y ffordd fawr lle'r oedd yn cwrdd â'i ffrind gorau, Callum, a phan welodd ef croesodd y ffordd ato ac roedd y ddau yn sgwrsio pan ddaeth i lawio ac awgrymodd Callum eu bod nhw'n mynd i chwilio am le sych i gysgodi ynddo.

1 marc yr un am bob brawddeg hyd at dri marc. Rhaid i'r ymgeiswyr gadw ystyr y darn gwreiddiol ym mhob brawddeg.
Dechrau brawddeg â 'phan' – dim marc.
Dechrau brawddeg ag 'a ' – dim marc.
Os oes mwy nag un frawddeg ym mhob rhan – dim marc.
Atalnodi yn hanfodol i gyfleu'r ystyr – disgwylir atalnodau llawn ar ddiwedd brawddegau a phrif lythrennau ar y dechrau neu ni ellir dyfarnu marc.

(iii) Llenwch y bwlch yn y frawddeg ganlynol. Bydd angen defnyddio un o'r tri gair sydd yn y rhestr. [1]

hun hŷn hyn

1 marc yr un am nodi:

Bu Llion yn y dref ar ei ben ei **hun** am y tro cyntaf ddoe.
Gellir derbyn ateb sydd wedi ei gylchu, tanlinellu, aroleuo neu ysgrifennu yn y bwlch.

✓- 1 marc



© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B (Ysgrifennu): (40 marc)**

B1. Prawf darllen (5 marc)

(i) Cywirwch y **berfau** yn y brawddegau canlynol. [2]
1 marc yr un hyd at ddau am nodi:

Cefais (i/fi) / Ces (i) / (mi/fe) ges (i/fi) / gefais (i/fi)
Ni dderbynnir 'chefais'.

Aethon (nhw) / Aethant (hwy)

Gellir derbyn yr ateb os bydd yr ymgeisydd wedi defnyddio llythyren fach ar ddechrau brawddeg.
Gellir derbyn yr ateb os na fydd yr ymgeisydd wedi ysgrifennu brawddeg.
Rhaid sillafu'r ferf yn gywir.

(ii) Rhowch y geiriau yn y blwch gan dreiglo'n gywir. [1]
1 marc yr un am nodi:

i **w**eld / **w**eld
Ateb ddim yn y bocs – derbyn yr ateb.

(iii) Cywirwch y brawddegau canlynol: [2]
1 marc yr un am nodi:

Gaf i dynnu llun **ohonot ti**? (dim 'ohonat' / ohono ti)
Gellir derbyn 'Gaf i dynnu dy lun?'

Dydy Dafydd ddim yn yr ysgol **weithiau** oherwydd ei salwch.
Gellir derbyn 'ar adegau' / 'yn achlysurol' / 'bob hyn a hyn'. Gellir derbyn rhoi 'weithiau' ar ddechrau brawddeg.
Rhaid sillafu 'weithiau' yn gywir.

✓- 1 marc



© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN B2 (Ysgrifennu) (35 marc)

| | *CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)* | *YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)* |
|---|---|---|
| **Band 5** | **17–20 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **13-15 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **13-16 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **10-12 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 3** | **9-12 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **7-9 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |



© WJEC CBAC Cyf.

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 2** | **5-8 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **4-6 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-4 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-3 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |

**Mewn tasgau esbonio, disgwylir i ymgeiswyr resymu ac egluro ar sail deall a chyfuno syniadau / gwybodaeth sydd wedi eu cywain o'r testunau darllen ac o brofiadau personol.**

✓ neu ✓✓ am gynnwys
Rhy fyr – cosbi o fewn y disgrifiadau
Camddehongli testun – haneru marc cynnwys
Ffurf anghywir – cosbi band marciau – tynnu 4 marc
Aroleuo rhan o'r gwaith e.e. paragraff neu ddau – gwallau iaith (gellir chwilio y tu hwnt i hynny gydag ymgeiswyr da)
Mewnbynnu dau farc – marc cynnwys (20) a marc iaith (15)



© WJEC CBAC Cyf.